Eisteddfod

Daeth criw o blant i gefnogi 'steddfod y pentref yn y Neuadd ar y nos Wener, i'r cystadlu lleol. Cafwyd cystadlu brwd gyda'r enillwyr a'r collwyr yn mwynhau eu hunain. Diolch i'r rhieni am gefnogi a dod â'r plant i gystadlu.

Hwyl Fawr

Cafodd Blwyddyn 4 a 5 y cyfle i ymweld â Llangrannog am benwythnos mis Ebrill ac yna dechrau mis Mai aeth blwyddyn 6 gyda Miss Lloyd i Glan-llyn am orig fach. Deallwn bod pawb wedi mwynhau profiadau newydd ac wedi ehangu gorwelion . Da yw dweud bod pawb wedi ymddwyn yn dda ac wedi dod adref heb niwed.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Craig Marshall am gael ei dderbyn i gerddorfa Ceredigion. Cafwyd cyngerdd heb ei ail yn y Neuadd Fawr nos Fercher y 3ydd o Fai;

hefyd, i Trystan am ennill llythyr *CIP*. Bydd hyn yn golygu bod Trystan yn cael £40 ar ysgol yn derbyn £100!! Testun ei lythyr oedd Owain Glyn Dŵr. Da iawn ti Trystan.